Beibl i Blant
yn cyflwyno

Duw yn profi cariad Abraham

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

addaswyd gan: M. Maillot; Tammy S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Un noson cafodd
Abraham
orchymyn
rhyfedd gan
Dduw.

Roedd yn brawf
i weld oedd
Abraham yn caru
ei fab Isaac yn
fwy na Duw.

"Dos â dy fab Isaac,
a'i ladd a llosgi
ei gorff fel
offrwm,"
meddai Duw.
Lladd Isaac?

Offrymu ei fab?
Roedd hyn yn galed
i Abraham.
Roedd yn
caru ei fab
yn fawr iawn.

Ond roedd Abraham wedi dysgu trystio Duw hyd yn oed os oedd e ddim yn ei ddeall.

Yn y bore, cychwynnodd ef gydag Isaac, a dau was, am y mynydd lle roedd pobl yn aberthu.

Cyn gadael, fe wnaeth Abraham baratoi coed tân ar gyfer yr offrwm.

Roedd Abraham
yn bwriadu
ufuddhau
i Dduw.



Tri diwrnod yn ddiweddarach daethon
nhw'n nes at y mynydd.

"Arhoswch yma",
dywedodd Abraham
wrth ei weision.

“Fe wnawn ni fynd i addoli, ac yna dod nôl atoch chi.”


Roedd Isaac yn cario'r coed; ac Abraham yn cario'r
tân - a chyllell.

"Ble mae'r oen ar gyfer yr aberth?" gofynnodd Isaac.

“Bydd Duw yn gwneud yn siŵr fod oen i'w aberthu.” atebodd Abraham.

Daeth y ddau i'r union le roedd Duw wedi ei ddewis.

Adeiladodd Abraham allor yno, a gosod y coed yn barod i losgi'r aberth fel rhodd i Dduw.

Roedd Abraham wedi adeiladu llawer o allorau. Hwn oedd yn un anoddaf, mae'n siŵr.

Dyma Abraham yn rhwymo Isaac a'i roi ar yr allor. Oedd Abraham wir yn mynd i ufuddhau i Dduw ac aberthu Isaac, ei unig fab?




Oedd! Roedd llafn y gyllell yn disgleirio wrth i Abraham ei chodi'n uchel.


Mae'n siŵr fod ei galon ar dorri, ond roedd Abraham yn gwybod fod yn rhaid ufuddhau i Dduw.

"PAID!"
gwaeddodd
Angel yr
ARGLWYDD.

"Rwy'n gwybod nawr dy fod ti'n parchu Duw.

Roeddet
ti'n barod
i aberthu dy
unig Fab
i mi."

Gwelodd Abraham
hwrdd yn sownd
mewn drysni.


Gollyngodd
Isaac yn rhydd,
ac aberthu'r
hwrdd yn ei le.


Tybed wnaeth Isaac feddwl, "Mae Duw wedi darparu, yn union fel dwedodd dad."

Wrth i'r tad a'r mab addoli, dywedodd Angel yr ARGLWYDD wrth Abraham.



“Trwy dy ddisgynyddion di bydd cenhedloedd y byd i gyd yn cael eu bendithio, am dy fod ti wedi gwneud beth ddywedais i.”

Mewn amser, byddai Iesu yn cael ei eni trwy ddisgynyddion Abraham.

Aeth Abraham ac Isaac gartref.

Peth amser wedyn fe wnaeth Sarah farw ac roedden nhw'n drist.

Collodd Abraham ei wraig.
Collodd Isaac ei fam.

Ar ôl
yr angladd,
anfonodd Abraham
ei brif was i chwilio am wraig
i Isaac.

Aeth y gwas
i'w wlad enedigol
i chwilio am wraig
ymhlith perthnasau Abraham.

Gofynnodd y gwas i Dduw am arwydd.

“Gad i'r un rwyt ti wedi ei dewis i fod yn wraig i Isaac gynnig rhoi dŵr i fy nghamelod.”

Dyma Rebeca yn cynnig tynnu dŵr iddyn nhw. Roedd hi'n un o deulu Abraham. Roedd Duw wedi ateb gweddi'r gwas.

Gadawodd Rebeca ei theulu er mwyn priodi Isaac.

Fe wnaeth hi ei gysuro wedi i'w fam farw. Roedd Isaac yn ei charu'n fawr iawn!

Duw yn profi cariad Abraham

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 22 - 24

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16